Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhoi diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru:

## Cynllun gweithredu lefel uchel 2021-2026

**Diweddariad Haf 2023**

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48269, ISBN digidol 978-1-83504-532-9
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

**Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun Gweithredu Lefel Uchel 2021-26**

**Diweddariad**

**Haf 2023**

## Trosolwg

Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Rhoi diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun gweithredu lefel uchel 2021-26'.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn defnyddio **Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd** a gwaith y **Grŵp Gweithredu arbenigol ar Ddigartrefedd**, a'r tri adroddiad a gynhyrchwyd rhwng mis Hydref 2019 a mis Gorffennaf 2020. Mae'r Grŵp wedi gweithio'n helaeth gydag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys pobl sydd wedi cael profiad personol o ddigartrefedd. Arweiniodd hyn at gyfres o gamau gweithredu lefel uchel lle mae cyfrifoldeb ar y cyd, gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu yn elfennau allweddol o'r gwaith o roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.

Roedd dau brif ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu a oedd yn rhan o ymrwymiad ehangach i gryfhau ein cymunedau ar hyd a lled Cymru – ymrwymiad i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal digartrefedd ac Ailgartrefu Cyflym; a darparu 20,000 o dai cymdeithasol carbon isel o ansawdd da i'w rhentu.  Mae hyn yn cyd-fynd ag **ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiwygio cyfraith tai a gweithredu argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, a oedd yn cynnwys datblygu cynllun gweithredu. Caiff hyn ei wneud mewn partneriaeth â Phlaid Cymru fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio.**  Mae'r Cynllun Gweithredu Lefel Uchel hwn yn ein helpu i gysoni'r ymrwymiadau hyn, i ddarparu cyfeiriad strategol ac i alluogi mesur o gynnydd, sy'n hollbwysig ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd ar hyd a lled Cymru.

Fel yr amlinellwyd wrth gyhoeddi yn 2021, bwriedir i'r cynllun fod yn ddogfen fyw ac y caiff diweddariadau eu cyhoeddi'n rheolaidd i sicrhau bod y camau gweithredu'n parhau i adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf, ac i ddarparu tryloywder o ran y cynnydd gweithredu. Felly, dyma'r cyntaf o'r diweddariadau hynny. Mae'n darparu trosolwg o'r cyd-destun sy'n newid, y cynnydd allweddol hyd yma, a thablau o'r camau gweithredu diweddaraf sy'n cynnwys camau gweithredu wedi'u mireinio a gweithgareddau sylfaenol.

Mae'r 16 o gamau gweithredu gwreiddiol yn parhau gan eu bod yn dal yn hanfodol i sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n cyflawni'r ymrwymiad uchelgeisiol i roi diwedd ar ddigartrefedd ar hyd a lled Cymru.  Fodd bynnag, mae'r gweithgareddau i'w cyflawni sy'n sail i'r camau gweithredu hyn wedi cael eu diweddaru a'u newid yn ôl yr angen er mwyn ystyried yr amgylchedd economaidd a'r sefyllfa tai ar hyn o bryd, sy'n effeithio ar y galw ar wasanaethau digartrefedd.

## Cyd-destun

Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd ar adeg o gryn ansicrwydd. Roedd y pandemig wedi ymestyn i ail flwyddyn a'r ymateb iddo o ran digartrefedd wedi'i ennill ei blwyf. Yn y cynllun, pwysleisiodd Llywodraeth Cymru ei ymrwymiad parhaus i'r dull gweithredu 'neb heb help', a darparwyd cyllid ychwanegol i gefnogi'r dull.

Ers cyhoeddi'r cynllun, mae'r pandemig wedi dod i ben ac rydym yng nghanol cyfnod adfer ar ei ôl. Fodd bynnag, mae'r cyd-destun ehangach yn dal yn heriol dros ben. Mae'r niferoedd sy'n troi at wasanaethau digartrefedd yn dal yn gyson uchel. Mae cyfuniad o ffactorau wrth wraidd hyn, gan gynnwys effaith barhaus pandemig Covid-19; yr argyfwng costau byw; pwysau chwyddiant ehangach ar dai a gwasanaethau cysylltiedig; a'r argyfwng dyngarol o ganlyniad i'r rhyfel yn Wcráin.

Mae'r cyfuniad hwn o ffactorau allanol wedi arwain at lefelau cyson uchel o bobl yn gorfod troi at wasanaethau digartrefedd, pwysau uwch ar y cyflenwad tai yn y sectorau cymdeithasol a phreifat, a chynnydd yn nifer y bobl mewn llety dros dro o ganlyniad i hynny. Mae'r data diweddaraf sydd wedi'i gyhoeddi yn dangos, ar ddiwedd 31 Mai 2023, roedd 10,872 o bobl mewn llety dros dro. Fodd bynnag, mae'n bwysig peidio â cholli golwg ar y cyfanswm sydd wedi cael cymorth drwy lety dros dro ers dechrau'r pandemig, sef dros 37,300. Felly, er bod angen gwneud gwaith sylweddol o hyd i gynyddu'r gweithgareddau atal ymhellach a chynyddu'r cyfraddau symud ymlaen – mae'n bwysig cydnabod y niferoedd uchel y mae eu sefyllfa ddigartref wedi cael ei datrys a chymorth i gael cartref parhaol, addas – oll o ganlyniad uniongyrchol i waith caled y timau ymroddedig mewn awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a phartneriaid yn y trydydd sector.

Rydym yn cydnabod yr effaith mae'r cyd-destun heriol parhaus wedi'i chael ac yn ei chael ar y gweithlu digartrefedd a chymorth tai. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd y gweithlu a'u hymrwymiad a'u hymroddiad wrth roi cymorth i bobl sy'n ddigartref neu mewn perygl o hynny. Dyna pam mae cam gweithredu penodol yn y cynllun i '*ddatblygu gweithlu cadarn a werthfawrogir, ac a gydnabyddir am ei arbenigedd*', ac mae grŵp gorchwyl a gorffen sy'n cynnwys partneriaid o bob rhan o'r sector wedi bod yn gweithio i fwrw ymlaen â'r maes gwaith pwysig hwn.

## Cynnydd o ran Gweithredu

Er y cyd-destun heriol parhaus, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran gweithredu'r Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd.

Yn 2022, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddeddfwriaeth i ychwanegu 11eg categori angen blaenoriaethol i'r rhai sy'n 'ddigartref ac ar y stryd' er mwyn gwneud yn siŵr nad oes rhaid i unrhyw un yng Nghymru gysgu allan. Roedd hyn yn sicrhau parhad y dull 'neb heb help' cyn diwygio'r ddeddfwriaeth ar raddfa ehangach. Cafodd hyn ei ategu gan gymorth ychwanegol i awdurdodau lleol ar gyfer darparu llety dros dro a rhagor o fesurau atal digartrefedd. Mae'r cynnydd hwn mewn cyllid yn golygu bod y

buddsoddiad mewn gwasanaethau atal digartrefedd a chymorth tai dros £210m yn 2023/24.

Rydym wedi dyrannu mwy o gyllid nag erioed i'r Grant Tai Cymdeithasol – bron i £1.2bn dros bedair blynedd gyntaf tymor y Senedd hon, gan gynnwys £300m yn 2022/23. Ym mis Ionawr 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £50m o gyllid dros y ddwy flynedd nesaf er mwyn ailddefnyddio hyd at 2,000 o eiddo gwag hirdymor ar hyd a lled Cymru drwy gynllun grant tai gwag cenedlaethol.

Yn 2022/23, cyflwynwyd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro i gefnogi'r gwaith o ddarparu llety tymor hirach o ansawdd da yn gyflym. Yn ei blwyddyn gyntaf, cafodd awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gymorth gwerth £76.4m gan y Rhaglen er mwyn datblygu 936 o gartrefi, gan weithio'n hyblyg ac yn gyflym i ddarparu cartrefi o ansawdd uwch a symud pobl o lety dros dro.

I wella'r mynediad at dai fforddiadwy tymor hirach yn y sector rhentu preifat, cafodd Cynllun Lesio Cymru ei lansio ym mis Ionawr 2022, gan ddarparu £30m dros bum mlynedd. Hyd yma, roedd 61% o'r eiddo sydd wedi cael eu defnyddio o dan y cynllun arfer bod yn wag.

Yn ogystal ag ymateb i'r pwysau uniongyrchol ar y system dai, rydym hefyd wedi gwneud cynnydd sylweddol yn datblygu'r polisi strategol a'r diwygiadau deddfwriaethol tymor hirach a nodir yn y cynllun. Yn haf 2022, comisiynodd y Gweinidog Newid Hinsawdd banel adolygu arbenigol i adolygu'r ddeddfwriaeth digartrefedd gyfredol a darparu tystiolaeth, ac i ddylanwadu ar ddiwygiadau i ddeddfwriaeth a pholisi yn y dyfodol. Mae'r panel, sy'n cael ei gadeirio gan yr Athro Suzanne Fitzpatrick, yn datblygu cynigion a chyngor i Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn dylanwadu ar Bapur Gwyn i'w gyhoeddi yn nes ymlaen eleni. Bydd y gwaith hwn, sydd wedi cael ei lywio gan drafodaethau helaeth â phobl â phrofiad bywyd o ddigartrefedd, yn helpu i sicrhau bod ein deddfwriaeth yn y dyfodol yn targedu atal digartrefedd yn gynnar a lle mae digartrefedd yn bodoli, yn darparu mynediad cyflym at gartrefi a chymorth ehangach, fel y bo'n briodol.

I sicrhau tryloywder o ran y cynnydd tuag at roi diwedd ar ddigartrefedd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyd-gynhyrchu Fframwaith Canlyniadau newydd ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd. Mae hwn yn darparu trosolwg o'r gwaith i atal digartrefedd a rhoi diwedd arno, a hynny gan nodi canlyniadau hirdymor a dangos y cynnydd tuag at sicrhau'r canlyniadau hynny dros amser. Mae'r Fframwaith hwn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd ond bydd ei weithredu'n rhan hollbwysig o'r gwaith o fesur cynnydd yn y maes hwn yn y dyfodol.

Mae cynnydd wedi'i wneud o ran datblygu a gweithredu Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym hefyd. Ond rydym yn cydnabod, yng nghyd-destun y pwysau cynyddol ar y system dai, y bydd y trawsnewid tuag at Ailgartrefu Cyflym yn cymryd mwy o amser na ragwelwyd yn wreiddiol – serch hynny, nid yw'r nod eithaf wedi newid. Mae 18 o awdurdodau lleol wedi llunio cynlluniau pontio cychwynnol terfynol ac mae'r rhain wedi cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Rydym yn dal yn aros am bedwar cynllun. Rydym yn dal wedi ymrwymo i weithio gyda phob awdurdod lleol i'w cefnogi wrth drawsnewid ac yn deall y bydd hyn yn broses a fydd yn datblygu. Bydd angen

adolygu a datblygu'n barhaus drwy gydol y broses o'u gweithredu. Bydd y blaenoriaethau a'r camau gweithredu gofynnol yn newid dros y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hirach. I gefnogi'r gwaith cynllunio strategol gofynnol, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol benodi cydlynwyr strategol er mwyn cefnogi perchnogaeth gorfforaethol a gweithio amlasiantaethol.

### Effeithiau ehangach y cynllun gweithredu lefel uchel

Mae'r cynllun hwn yn nodi'r camau gweithredu tymor hirach i'w cymryd i fynd â ni gam ymhellach at roi diwedd ar ddigartrefedd ar hyd a lled Cymru. Mae'n gasgliad o weithgareddau i'w cyflawni gan Lywodraeth Cymru a'n prif bartneriaid er mwyn cyflawni'r uchelgais hon yr ydym yn ei rhannu.  Mae pob cam yn hanfodol er mwyn symud yn nes at y nod hwn.

Felly, nid oes asesiad effaith o'r cynllun nac adolygiad dilynol wedi cael eu cynnal yn benodol. Yn hytrach, pan fydd angen polisi neu raglenni gwaith newydd, mae'r camau gweithredu unigol yn cael eu hasesu drwy eu datblygiad a'u gweithrediad. Mae Asesiadau Effaith Integredig, sy'n ystyried ac yn asesu effeithiau ehangach polisi, rhaglen neu ddeddfwriaeth arfaethedig, wedi cael eu cynnal.  Mae'r asesiadau hyn yn cynnwys rhoi sylw dyledus i effeithiau penderfyniadau ar grwpiau gwarchodedig a hawliau dynol (o dan Ddeddf Gydraddoldeb 2010), hawliau plant a phobl ifanc, goblygiadau economaidd-gymdeithasol, yr hinsawdd, cynaliadwyedd, a'r Gymraeg.

Cafodd yr effeithiau gwreiddiol eu hystyried wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu lefel uchel cyffredinol hwn, pan oedd yn destun ymgynghoriad yn 2021. Yn y cyfnod ers y cynllun gwreiddiol, mae'r Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd wedi bod yn destun Asesiad Effaith Integredig, fel y mae'r mesurau cyfreithiol pontio a gyflwynwyd o dan y Fframwaith hwn i gyflwyno 11eg categori angen blaenoriaethol. Fel rhan o'r diwygiad ehangach, cyffredinol o bolisi a deddfwriaeth digartrefedd yng Nghymru, bydd Asesiad Effaith Integredig ehangach a manylach yn cael ei gynnal, a fydd yn gymorth i adolygiadau yn y dyfodol o'r camau gweithredu i'w cymryd ar hyd a lled Cymru.

### Camau Gweithredu Diwygiedig

Mae'r tablau camau gweithredu isod wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu'r gweithgareddau newydd (mewn glas) ac o dan bob adran mae trosolwg o'r cynnydd sydd wedi'i wneud ers cyhoeddi.

**Tabl o Gamau Gweithredu Lefel Uchel**
**Diweddariad 2023**

| Rhif | Cam Gweithredu | Partneriaid cyflawni (cenedlaethol, rhanbarthol neu leol) | Amserlen (byr (<1 mlynedd), canolig (1-2 flynedd) neu hirdymor (>3 blynedd) | Adnodd sydd ei angen / a ddarperir |
|---|---|---|---|---|
| Trawsnewid y system ddigartrefedd | | | | |
| 1 | **Datblygu a chyflawni Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym ledled Cymru**<br><br>Awdurdodau lleol i ddatblygu Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym fel rhan o'u Strategaethau Rhaglen Grant Cymorth Tai. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn cyhoeddi canllawiau i gefnogi awdurdodau lleol yn y broses hon, yn ogystal â chynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau ymgysylltu er mwyn esbonio ac archwilio materion a heriau lle y gallai'r broses Ailgartrefu Cyflym fynd yn groes i bolisïau dyrannu presennol.<br><br>Parhau i gefnogi'r gwaith o ehangu Tai yn Gyntaf ledled Cymru a sicrhau ei fod yn gywir. | Awdurdodau lleol / Llywodraeth Cymru / landlordiaid cymdeithasol cofrestredig<br><br>Bydd awdurdodau lleol yn arwain y gwaith hwn gan gydweithio â phartneriaid sy'n darparu tai. | Tymor byr – Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym ar waith erbyn diwedd mis Medi 2022 (drafft erbyn diwedd mis Mehefin 2022)<br><br>Tymor Byr/Canolig – Grŵp Gorchwyl a Gorffen o randdeiliaid allweddol yn cael ei sefydlu o dan Fwrdd Cynghori Cenedlaethol i gefnogi'r gwaith<br><br>**Diweddariad 2023:**<br>Tymor Canolig – Parhau â'r adolygiad mewnol o gynlluniau a gyflwynwyd, gan nodi a rhannu'r arferion gorau. Rhoi cymorth i awdurdodau lleol | Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi canllawiau i awdurdodau lleol i helpu i lunio eu Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym. Darperir cymorth parhaus lle bo angen drwy swyddogion polisi a rheolwyr cydberthynas Llywodraeth Cymru.<br><br>Hyblygrwydd o fewn y Grant Cymorth Tai ar gyfer adnoddau awdurdodau lleol i gefnogi gwaith cynllunio a phontio.<br><br>Rhaglen Tai yn Gyntaf £1.9m<br>Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ailgartrefu Cyflym i nodi unrhyw adnoddau sydd eu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | sydd wedi methu datblygu cynllun. | hangen i wneud y gwaith yn effeithiol. |

**DIWEDDARIAD AR GYNNYDD:**

Ailgartrefu Cyflym

Cynhaliwyd digwyddiadau trafod ym mis Gorffennaf 2021 a mis Mawrth 2022 gydag awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol cyn cyflwyno Ailgartrefu Cyflym, gan gynnwys gweithdai manwl ac arddangosiadau o'r pecyn cymorth Excel ar gyfer Ailgartrefu Cyflym.

Cafodd y Canllawiau ar Ailgartrefu Cyflym eu drafftio mewn ymgynghoriad ag awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol eraill, a'u cyhoeddi ym mis Awst 2022. Eu nod yw cefnogi dealltwriaeth a'r cynlluniau pontio.

Cyllid grant: Ers 2022/23, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ar gyfer swydd Cydlynydd Strategol ym mhob awdurdod lleol er mwyn cefnogi'r newid i ddull Ailgartrefu Cyflym. Bwriad y swydd hon yw cefnogi gwaith mewn partneriaeth a gwaith amlasiantaethol ar draws y timau Strategaeth Tai a datblygu, yn ogystal â gwaith mewn partneriaeth â landlordiaid a darparwyr cymorth.

Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio'n agos gydag awdurdodau lleol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu cynllun pontio ailgartrefu cyflym. O ganlyniad i'r amgylchedd heriol parhaus a'r pwysau ar wasanaethau, cafodd y dyddiad cau gwreiddiol ar gyfer cyflwyno, mis Medi 2022, ei ymestyn. Fodd bynnag, hyd yma mae Llywodraeth Cymru wedi cael cynlluniau terfynol gan 18 o awdurdodau lleol ac mae'n gweithio gyda nhw i'w helpu i ddatblygu'r cynlluniau ymhellach, ac i'w gweithredu. Mae pedwar awdurdod lleol heb gyflwyno cynlluniau terfynol eto ac mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda nhw i nodi'r rhwystrau o ran cyflawni mewn capasiti cefnogi a herio.

Mae digwyddiadau trafod rhanbarthol wedi cael eu cynnal yn 2022 ac yn 2023, gan ddod â phartneriaid allweddol ynghyd i hybu Ailgartrefu Cyflym, i drafod rhwystrau ac i rannu atebion.

Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ailgartrefu Cyflym

Cafodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ailgartrefu Cyflym ei sefydlu ym mis Hydref 2021 i roi cyngor a chymorth i'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd mewn cysylltiad â phontio i ddull Ailgartrefu Cyflym yn genedlaethol. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd a bydd yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd Cenedlaethol, ac i Weinidogion Cymru wedi hynny, o ganlyniad i'r gwaith hwn.

Tai yn Gyntaf

Mae cyllid uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ar y cyd â chyllid drwy awdurdodau lleol yn golygu bod prosiectau ar waith ar draws 16 o awdurdodau lleol. Mae tri ohonynt wedi'u hachredu'n llawn gan Cymorth Cymru ac yn dangos cysondeb a chywirdeb mewn cysylltiad ag egwyddorion Tai yn Gyntaf. Mae Cronfa Arloesi Llywodraeth Cymru ar gyfer Pobl Ifanc Ddigartref hefyd yn ariannu pedwar prosiect Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc ar draws pum awdurdod lleol yng Nghymru, gan roi cymorth i bobl rhwng 16 a 25 oed.

**Gwaith sydd ar y gweill a gwaith yn y dyfodol:**

Rydym yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi perchnogaeth gorfforaethol ehangach ar ddigartrefedd ar draws awdurdodau lleol a phartneriaid ehangach, gan gynnwys iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Bydd hyn yn hollbwysig ar gyfer cyflawni a llwyddiant Ailgartrefu Cyflym, ac ar gyfer cyflawni dull sy'n deall trawma ac sydd wedi'i addasu yn ôl anghenion yr unigolyn.

Bydd rhaglen gyfathrebu a gyflawnir drwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ailgartrefu Cyflym yn cefnogi'r negeseuon o rannu cyfrifoldeb a'r angen i weithio mewn partneriaeth ar draws amrywiaeth eang o wasanaethau.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru astudiaeth dichonoldeb data ar bolisïau dyrannu tai cymdeithasol yng Nghymru er mwyn cynyddu ein dealltwriaeth o'r data sydd ar gael ar weithgarwch dyrannu tai ar gyfer yr holl landlordiaid cymdeithasol. Cafodd yr adroddiad ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2023 ac mae'n cefnogi'r cynnig i ddatblygu ail gam ymchwil manwl i ddyraniadau tai cymdeithasol ar draws Cymru. Bydd y gwaith hwn yn dechrau yn hydref 2023.

I ddeall a gwerthu ymhellach llwyddiant ymyriadau digartrefedd arloesol sydd wedi'u cyflwyno yng Nghymru, mae gwerthusiad allanol yn cael ei gynnal i asesu gwasanaethau a phrosiectau digartrefedd a oedd yn rhan o gylch cyllid grant Cam 2 yn 2021, yn ogystal â phrosiectau Tai yn Gyntaf a'r Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc. Bydd canfyddiadau'r gwerthusiad hwn, a gyhoeddir yn hydref 2023, yn dylanwadu ymhellach ar ein polisi yn y maes hwn.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2 | **Cefnogi'r ymateb brys parhaus a'r broses bontio i Ailgartrefu Cyflym**<br><br>Llywodraeth Cymru i gynnal y trefniadau tai brys (iechyd y cyhoedd), datblygu canllawiau a chyfeiriad mewn perthynas â'r broses bontio i Ailgartrefu Cyflym a rhoi'r modd i awdurdodau lleol adolygu a datblygu eu gwasanaethau tai a digartrefedd er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gwaith Ailgartrefu Cyflym.<br><br>**Diweddariad 2023:**<br>Wrth symud o'r ymateb i Covid-19, bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ddatblygu canllawiau ac arweiniad ar y broses pontio o ystyried y galw cynyddol parhaus, a'r pwysau ehangach, gan sicrhau cysondeb ag Ailgartrefu Cyflym a chanolbwyntio rhagor ar leihau'r ddibyniaeth ar lety dros dro ar hyd a lled Cymru. | Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, partneriaid yn y Trydydd sector<br><br>Llywodraeth Cymru fydd y prif arweinydd, gan annog partneriaid eraill i ymgysylltu yn y gwaith hwn | Tymor byr – cyllid i awdurdodau lleol yn 2021/22 drwy'r Gronfa Caledi i awdurdodau lleol ar gyfer ymateb brys parhaus. Canllawiau ar gynlluniau pontio Ailgartrefu Cyflym wedi'u datblygu a'u cyhoeddi.<br><br>Tymor canolig – cynlluniau pontio awdurdodau lleol ar waith ac yn cael eu gweithredu<br><br>**Diweddariad 2023:**<br><br>Tymor byr – Parhau i ddatblygu a darparu canllawiau ar gyfer y camau gweithredu a blaenoriaethau tymor byr, tymor canolig a thymor hir mewn ymateb i bwysau nawr ac yn y dyfodol.<br>Parhau â'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro<br>Cyhoeddi data manylach ar ddefnyddio llety dros dro a manylion symud ymlaen. | Cyllideb y Grant Cymorth Tai wedi cynyddu £40m yn 2021-22 (gan greu cyfanswm o £166.7m) i gydnabod y lefel o anghenion cymorth nas diwallwyd yn flaenorol.<br><br>£10m ychwanegol ar ben elfen digartrefedd y Gronfa Galedi ar gyfer Ch3 a Ch4 o 2021-22.<br><br>£2m ychwanegol ar gyfer mesurau atal digartrefedd dewisol.<br><br>**Diweddariad 2023:**<br>Y Gyllideb Atal Digartrefedd wedi cynyddu. £15m wedi'i ddarparu i awdurdodau lleol ar gyfer llety dros dro a £6m ar gyfer mesurau atal digartrefedd dewisol yn 2023/24 (cyfanswm y gyllideb cymorth tai a digartrefedd dros £210m).<br>Y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro wedi'i hymestyn i 2023/24 ar gyfer rhagor o fuddsoddiad |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | cyfalaf i gefnogi symud o lety dros dro. |

**DIWEDDARIAD AR GYNNYDD:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadw'r dull neb heb help i sicrhau nad oes rhaid i unrhyw un fod yn ddigartref ac ar y stryd yng Nghymru. Ar 24 Hydref 2022, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Reoliadau Digartrefedd (Angen Blaenoriaethol a Bwriadoldeb) (Cymru) 2022 i gydnabod mewn cyfraith bod y bobl sy'n ddigartref ac ar y stryd neu mewn perygl o hynny yn angen blaenoriaethol ar gyfer cymorth a llety brys. Mae Llywodraeth Cymru wedi drafftio canllawiau statudol ychwanegol i helpu awdurdodau lleol i roi'r newid deddfwriaethol hwn ar waith.

Mewn ymateb i'r pwysau cynyddol ar y system digartrefedd, yn 2022/23 gwnaethom sefydlu'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro i gyflwyno rhagor o lety o ansawdd da yn gyflym i helpu i symud pobl o lety dros i lety tymor hirach, lle gallant ymgartrefu. Yn ei blwyddyn gyntaf, cafodd awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gymorth gwerth £76.4 miliwn gan y Rhaglen er mwyn datblygu 936 yn rhagor o gartrefi, gan weithio'n hyblyg ac yn ymatebol i ddarparu llety tymor hirach o ansawdd da.

Hefyd yn 2022/23, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol i gefnogi awdurdodau lleol, gan ddarparu £10m i ddechrau ar gyfer costau llety dros dro a £6m ar gyfer mesurau atal digartrefedd dewisol. Ychwanegwyd £10m yn rhagor at y cyllid cychwynnol hwn, gan ddod i gyfanswm o £26m, o ganlyniad i gyllid yn ystod y flwyddyn.

I sicrhau tryloywder, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gyhoeddi gwybodaeth reoli fisol am gysgu allan, llety dros dro a symud ymlaen. Mae gwaith wedi mynd rhagddo i wella ansawdd y data sy'n cael ei gasglu. Y bwriad yw cyhoeddi data manylach.

**Gwaith sydd ar y gweill a gwaith yn y dyfodol:**
Byddwn yn parhau i roi cymorth i awdurdodau lleol gyda'u gwaith pontio, gan gynnwys gweithio gyda nhw i leihau'r ddibyniaeth ar lety dros dro yng Nghymru, yn benodol gwestai a llety gwely a brecwast. Mae Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym yn canolbwyntio'n benodol ar hyn, gan gynnwys gweledigaeth o ran sut bydd awdurdodau lleol yn gweithio gyda phartneriaid i gynyddu'r cyflenwad tai, gan gynnwys drwy raglenni cyllido fel y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro, ac yn lleihau'r ddibyniaeth ar atebion dros dro, gan ganiatáu iddynt flaenoriaethu a chynllunio gweithgareddau i sbarduno hyn. Mae canllawiau pellach wrthi'n cael eu datblygu i gefnogi hyn.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3 | **Datblygu a chyhoeddi Papur Gwyrdd yn archwilio diwygiadau deddfwriaethol gofynnol**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn gwerthuso'r ddarpariaeth gyfreithiol gyfredol ar gyfer atal digartrefedd ac yn adolygu meysydd i wella'r gyfraith, er mwyn cynnal y dull 'neb heb help' a weithredwyd drwy gydol y pandemig a sicrhau bod pob gwasanaeth cyhoeddus yn cydweithio i atal digartrefedd. Caiff y gwaith hwn ei ddatblygu i ddechrau drwy Bapur Gwyrdd, gan archwilio opsiynau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol.<br>Bydd hyn yn cynnwys ystyried:<br>- Angen Blaenoriaethol<br>- Bwriadoldeb<br>- Dyraniadau<br>- Achosion o Droi Pobl Allan<br>- Cysylltiad lleol<br>- Addasrwydd<br>- Dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus<br>- Dull sy'n seiliedig ar hawliau<br><br>**Diweddariad 2023:**<br>Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu bwrw ymlaen i ddatblygu Papur Gwyn yn syth er mwyn mynd i'r afael â'r galw | Llywodraeth Cymru – gan ymgysylltu ag amrywiaeth o bartneriaid | Tymor byr –<br>Papur Gwyrdd i'w gyhoeddi yn 2022<br><br>**Diweddariad 2023:**<br>Tymor byr – Papur Gwyn i'w gyhoeddi yn hydref 2023 | Llywodraeth Cymru yn sefydlu grŵp arbenigol o randdeiliaid i helpu i ddatblygu'r gwaith diwygio deddfwriaethol posibl.<br><br>Swyddogion polisi a chyfreithwyr Llywodraeth Cymru fydd yn bennaf gyfrifol am ddatblygu'r Papur Gwyrdd, a byddant yn ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid.<br><br>Caiff asesiad effaith rheoleiddiol, gan gynnwys asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, ei ddatblygu ochr yn ochr â chynigion deddfwriaethol i ddarparu'r amcangyfrifon gorau o effaith debygol diwygiadau posibl.<br><br>**Diweddariad 2023:**<br>Swyddogion polisi a chyfreithwyr Llywodraeth Cymru fydd yn bennaf gyfrifol am ddatblygu'r Papur Gwyn, a byddant yn ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | cynyddol ar y system a chyflawni diwygiadau deddfwriaethol yn nhymor y Senedd hon. | | | |

**DIWEDDARIAD AR GYNNYDD:**

Er mwyn cyflawni diwygiadau deddfwriaethol yn ystod y tymor hwn ac i gydnabod y gwaith paratoi sylweddol sydd eisoes wedi'i wneud, gan gynnwys yng ngwaith manwl y Panel Arbenigol, rydym yn bwrw ymlaen i ddatblygu Papur Gwyn yn syth, yn hytrach na Phapur Gwyrdd.  Caiff y Papur Gwyn ei gyhoeddi cyn diwedd 2023.

Cafodd Paneli Adolygu Arbenigol ei sefydlu yn 2022 i wneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth er mwyn rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Cafodd y Panel ei gynnull gan Crisis. Yr Athro Suzanne Fitzpatrick yw'r cadeirydd ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth leol, cymdeithasau tai, y trydydd sector, sefydliadau cydraddoldeb ac arbenigwyr o'r meysydd cyfreithiol ac academaidd. Bydd yn adrodd fis Medi 2023.

Mae trafodaethau sylweddol yn cael eu cynnal â rhanddeiliaid i gefnogi gwaith y panel a datblygiad y Papur Gwyn. Mae Cymorth Cymru wedi arwain ar waith i gynnwys pobl â phrofiad bywyd o ddigartrefedd ac mae dros 300 o arbenigwyr drwy brofiad wedi dylanwadu ar y diwygiadau arfaethedig hyd yma. Hefyd, mae Tai Pawb wedi cychwyn prosiect ychwanegol i sicrhau bod safbwyntiau pobl ag ystod o nodweddion gwarchodedig a phrofiad bywyd o ddigartrefedd wedi cael eu cynnwys yn y gwaith. Ar ben hynny, mae Crisis wedi cynnal sesiynau ar-lein i randdeiliaid ers sefydlu'r panel i gasglu safbwyntiau, ac wedi mynd ar drywydd safbwyntiau grwpiau y mae'n hysbys eu bod mewn perygl uwch o fod yn ddigartref. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu grŵp cyfeirio awdurdodau lleol i drafod y prif feysydd diwygio. Mae canfyddiadau'r grŵp yn cael eu pasio i'r panel ac yn llywio ei drafodaethau.

**Gwaith sydd ar y gweill a gwaith yn y dyfodol:**

Bydd y Panel Arbenigol yn adrodd cyn diwedd mis Awst 2023, a fydd yn ei gwneud yn bosibl cyhoeddi Papur Gwyn yn hydref 2023. Bydd proses ymgynghori ffurfiol yn dilyn, a fydd yn cynnwys amryw o ddigwyddiadau trafod i'r cyhoedd ac i randdeiliaid.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4 | **Cynyddu'r cyflenwad o dai, eu hargaeledd a'u hygyrchedd yn y sector cymdeithasol a'r sector preifat**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, Rhentu Doeth Cymru ac eraill i gynyddu'r cyflenwad, yr argaeledd a'r hygyrchedd ar draws y ddau sector – gan sicrhau y caiff anghenion y rheini sy'n profi digartrefedd eu hadlewyrchu yn y prosesau ar gyfer asesu angen, datblygu a darparu cartrefi ychwanegol ac o fewn trefniadau dyrannu.<br><br>Targed Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod 20,000 yn rhagor o dai cymdeithasol ar gael i'w rhentu yn ystod tymor y llywodraeth hon, gan gynnwys tai wedi'u lesio gan landlordiaid preifat. Bydd hyn yn help i leddfu'r pwysau ar wasanaethau tai i bobl sy'n ddigartref neu mewn perygl o hynny.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rôl hanfodol y bydd | Llywodraeth Cymru (drwy'r targed o 20k), awdurdodau lleol gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn rheoli sut mae cysylltiadau datblygiadau tai yn adlewyrchu'r boblogaeth ddigartref. | Tymor byr – rhagor o gyllid. 2021-22 – Cyllid Grant Tai Cymdeithasol wedi dyblu i £250m bron er mwyn cefnogi cynnydd yn y ddarpariaeth.<br><br>Tymor Byr/Canolig – cyflwyno Cynllun Lesio'r Sector Rhentu Preifat yn genedlaethol.<br><br>Hirdymor – darparu 20,000 erbyn diwedd tymor y llywodraeth.<br><br>**<u>Diweddariad 2023:</u>**<br>Cafodd Cynllun Lesio Cymru ei lansio ym mis Ionawr 2022.<br><br>Tymor byr – Ymestyn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro i ail flwyddyn<br><br>Tymor canolig – Papur Gwyn ar Dai Digonol, Rhent Teg a Fforddiadwyedd. | £250m wedi'i ddyrannu yn 2021/22 i'r Grant Tai Cymdeithasol<br><br>Darperir refeniw o £262,000 a chyllid cyfalaf o £170,000 yn 2021/22 i gefnogi'r gwaith o gyflwyno cynllun lesio'r sector rhentu preifat yn genedlaethol, gyda hyd at £66.3m wedi'i neilltuo ar gyfer y gwaith hwn dros y 10 mlynedd nesaf.<br><br>**<u>Diweddariad 2023:</u>**<br>Tymor byr – Buddsoddiad mwy nag erioed yn y Grant Tai Cymdeithasol – £300m yn 2022-23 a £300m yn 2023-24. Darparu cyllid i'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro hefyd.<br><br>Yn y flwyddyn gyntaf, roedd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro wedi darparu £76.4m i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i gefnogi'r gwaith o ddarparu llety |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | angen i landlordiaid preifat ei chwarae er mwyn helpu i roi diwedd ar ddigartrefedd a bydd yn mynd ati gyda'r sector i nodi'r rhwystrau y gellir eu dileu neu'r cyfleoedd y gellir eu cymryd i gynyddu a chynnal eu cyfraniad. | | | tymor hirach o ansawdd da yn gyflym. |

**DIWEDDARIAD AR GYNNYDD:**

Yr ymrwymiad 20,000 o dai

Rydym wedi dyrannu mwy o gyllid nag erioed i'r Grant Tai Cymdeithasol – bron i £1.2bn dros bedair blynedd gyntaf tymor y Senedd hon, gan gynnwys £300m yn 2022/23 a £300m yn 2023/24. Er ein bod wedi buddsoddi mwy nag erioed, mae nifer o heriau'n wynebu'r sector adeiladu tai. Mae'r cyd-destun economaidd wedi arwain at gostau benthyca uwch, prinder deunyddiau a sylfaen contractwyr lai. Mae materion amgylcheddol hefyd, fel yr angen i leihau'r lefelau ffosfforws yn ardaloedd cadwraeth arbennig Cymru. Her arall sy'n wynebu datblygiadau tai wedi'u hadeiladu o'r newydd yw afonydd. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda'r sector i helpu i liniaru neu oresgyn yr heriau hyn lle bo'n bosibl. Ond er mwyn cyflenwi rhagor o dai tuag at y targed o 20,000 yn gyflym, yn ogystal ag ariannu tai wedi'u hadeiladu o'r newydd, rydym yn cefnogi amrywiaeth o fentrau, fel caffael eiddo, ailfodelu llety presennol, a throsi adeiladu'n llety o ansawdd da.

Y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro

Cafodd y Rhaglen hon ei sefydlu yn 2022-23 i ddarparu llety tymor hirach o ansawdd da i bawb sydd angen tai. Yn y flwyddyn gyntaf, cafodd 936 o dai eu cyflenwi drwy'r Rhaglen, gan weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Gan gydnabod y rôl allweddol mae wedi'i chwarae yn cyflenwi llety o ansawdd da i leihau'r galw am lety dros dro o ansawdd is, bydd y Rhaglen yn parhau yn 2023/24.

Cynllun Lesio Cymru

Cafodd Cynllun Lesio Cymru ei lansio ym mis Ionawr 2022. Ei darged yw cynnwys 1,500 o eiddo erbyn diwedd mis Mawrth 2027. Ar 31 Mawrth 2023, roedd 105 o eiddo wedi cael eu cyflwyno i'r cynllun, gan gynyddu nifer yr eiddo sydd ar gael i'w rhentu gan ymgeiswyr am dai cymdeithasol. Roedd 61% o'r rhain wedi bod yn wag am chwe mis neu fwy, felly maen nhw wedi cyfrannu'n uniongyrchol at gynyddu nifer y tai sydd ar gael ar hyd a lled Cymru. Ar hyn o bryd, mae 16 o awdurdodau lleol yn cynnig y cynllun yng Nghymru.

Cynllun Grant Tai Gwag

Ym mis Ionawr 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £50 miliwn o gyllid dros y ddwy flynedd nesaf er mwyn ailddefnyddio hyd at 2,000 o eiddo gwag hirdymor ar hyd a lled Cymru drwy gynllun grant tai gwag cenedlaethol.

Sicrhau llwybr tuag at dai digonol – Papur Gwyrdd

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyrdd i wneud cais am dystiolaeth ym mis Mehefin 2023. Ei fwriad oedd dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu Papur Gwyn i gynnwys cynigion ar sicrhau llwybr tuag at dai digonol, rhent teg a dulliau newydd o wneud tai'n fforddiadwy i bobl ar incwm lleol.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5 | **Datblygu gweithlu cadarn a werthfawrogir, ac a gydnabyddir am ei arbenigedd**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu gwaith ar y cyd â phartneriaid i ddatblygu fframwaith recriwtio, hyfforddi a datblygu'r gweithlu ar gyfer staff digartrefedd a chymorth tai. Bydd y gwaith hwn yn hyrwyddo'r sector fel gyrfa ac yn ystyried sut y gallwn roi dull wedi'i lywio gan seicoleg ar waith ar draws gwasanaethau tai. Bydd y fframwaith yn tynnu sylw at y modd rydym yn dylanwadu ar ddiwylliannau ar draws strwythurau llywodraethu, ariannu a chomisiynu yn ogystal â thimau rheng flaen yn y sector. | Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid cyflenwi gwasanaethau | Tymor byr – Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol o dan Fwrdd Cynghori Cenedlaethol i arwain datblygiad y gwaith<br><br>Tymor canolig i'r hirdymor – cyflawni a gweithredu'r fframwaith<br><br>**Diweddariad 2023:**<br>Tymor byr – Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddatblygu set o argymhellion i’w gwneud i’r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd.<br><br>Tymor byr – Ymgyrch gyfathrebu bellach i gefnogi recriwtio a hyrwyddo’r sector. | Grŵp Gorchwyl a Gorffen i nodi unrhyw adnoddau sydd eu hangen i wneud y gwaith yn effeithiol. |

**DIWEDDARIAD AR GYNNYDD:**

Sefydlwyd grŵp Gorchwyl a Gorffen yn 2021 o dan y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Cytunodd y Grŵp ar y 5 thema gwaith canlynol. Ar ôl gorffen, bydd cyfres o argymhellion yn cael eu gwneud i'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd ac wedyn i Lywodraeth Cymru.

**1. Cyflog** – Mae cwmni ymchwil allanol annibynnol wedi cael ei gomisiynu i gynnal ymarfer meincnodi cyflogau yn y sector digartrefedd a chymorth tai, a rolau cymharol y tu allan i'r sector. Disgwylir i'r gwaith canfod ffeithiau hwn gael ei gwblhau erbyn diwedd haf 2023 a bydd yn cael ei gyflwyno i Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweithlu i'w adolygu. Bydd hyn yn helpu i lywio argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i'r Bwrdd Cynghori erbyn mis Tachwedd 2023, ac wedyn Llywodraeth Cymru.

**2. Cymorth i staff** – Mae gwaith wedi cael ei wneud i gwmpasu ymchwil cyfredol i lywio modelau arferion gorau, a fydd yn cynhyrchu set o argymhellion i Lywodraeth Cymru. Mae'r gwaith hwn hefyd yn cyd-fynd â thrafodaethau archwiliadol ar argaeledd gwasanaeth hunanatgyfeirio iechyd meddwl i staff, gan gynnwys modelau presennol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

**3. Cymwysterau ac achrediad staff** – Yn dilyn adborth gan reolwyr a gweithlu rheng flaen ym maes digartrefedd, mae ffrwd waith wedi cael ei sefydlu i gwmpasu fframwaith cymwysterau ac achrediad ar gyfer y sector digartrefedd. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys ystyried fframwaith cymwysterau a ddatblygwyd yn Lloegr i'w adolygu fel rhan o'r gwaith o ddatblygu cynigion terfynol.

**4. Recriwtio** – Mae gwaith yn mynd rhagddo i gwmpasu pecyn cymorth arferion gorau i helpu gyda'r heriau presennol sy'n ymwneud â recriwtio a chadw staff yn y sector. Gyda mewnbwn gan aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddau gam o ymgyrch recriwtio digartrefedd a chymorth tai ym mis Gorffennaf 2022 a rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2023. Roedd yr ymgyrch yn annog rhagor o bobl i wneud cais am swyddi yn y sector, gan ei hyrwyddo fel sector sy'n cynnig boddhad yn y gwaith. Datblygwyd gwefan swyddi gyda Cymorth Cymru ac roedd 28,000 o ddefnyddwyr ar y wefan yn ystod ail gam yr ymgyrch. Cafwyd adborth cadarnhaol gan y rhai sy'n defnyddio'r safle i recriwtio i swyddi gwag. Roedd yr adborth yn cynnwys cynnydd yn amrywiaeth yr ymgeiswyr, cynnydd sylweddol yn nifer yr ymgeiswyr a chynnydd yn ansawdd yr ymgeiswyr. Mae deunyddiau ymgyrchu'n dal ar gael i'w defnyddio gan awdurdodau lleol a darparwyr i gyfeirio at swyddi gwag a hysbysebir ar safle swyddi Cymorth Cymru.

**5. Comisiynu** – Yn dilyn cynnydd o ran y ffrydiau gwaith a amlinellir uchod, mae ffrwd waith wedi cael ei sefydlu i gwmpasu'r gwaith hwn, a fydd yn cynnwys datblygu canllawiau ar yr arferion comisiynu gorau ar gyfer awdurdodau lleol.

Yn ogystal â gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, mae Llywodraeth Cymru wedi cydgynhyrchu Fframwaith Canlyniadau newydd ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd i ddarparu cyfeiriad strategol clir ar gyfer atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru drwy nodi'r canlyniadau hirdymor a ddymunir, a dangos cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniadau hyn dros amser. Un o feysydd strategol y fframwaith yw'r gweithlu digartrefedd a chymorth tai. Mae'r canlyniad strategol hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ddatblygu gweithlu cymorth tai a digartrefedd cadarn sy'n cael ei werthfawrogi ac sy'n cael ei gydnabod am ei arbenigedd. Mae'r fframwaith yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Mae arolwg newydd o brofiadau'r gweithlu digartrefedd a chymorth tai gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddatblygu i fesur cynnydd yn y maes canlyniadau hwn.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 6 | **Mabwysiadu dulliau allgymorth grymusol ledled Cymru**<br><br>Awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau atal digartrefedd i sicrhau bod gan weithwyr allgymorth yr adnoddau a'r gallu i helpu pobl i symud o gysgu allan i lety priodol ar y cyfle cynharaf. | Awdurdodau lleol<br><br>Bydd awdurdodau lleol yn arwain y cam gweithredu hwn gan gydweithio â phartneriaid sy'n darparu tai a'r rheini sy'n cefnogi gwasanaethau tai yn fwy cyffredinol. | Tymor byr i ganolig | £166.7m o Grant Cymorth Tai wedi'i ddarparu yn 2021/22, a all gael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol i dalu am wasanaethau allgymorth, a hyfforddiant ar gyfer staff a ariennir gan y Grant Cymorth Tai.<br><br>Diweddariad 2023:<br>Mae'r Grant Cymorth Tai wedi parhau i gael ei ddarparu at y diben hwn, gan ddarparu £166.7m ar gyfer 2023/24. |
| | | | | |

**DIWEDDARIAD AR GYNNYDD:**

Mae allgymorth yn flaenoriaeth yng Nghynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym awdurdodau lleol. Ar anterth y pandemig, roedd cysgu allan neu ddigartrefedd ar y stryd wedi lleihau'n sylweddol fel rhan o'r dull 'neb heb help'. Yn anffodus, yn dilyn y pandemig mae nifer y bobl sy'n cysgu allan wedi cynyddu mewn rhai ardaloedd, er bod y lefelau'n sylweddol is na chyn y pandemig. Mae cynlluniau pontio awdurdodau lleol yn amlinellu sut byddant yn parhau i adeiladu ar y cysylltiadau a'r gweithgareddau atal a roddwyd ar waith ganddynt drwy gydol y pandemig, a'u datblygu ymhellach.

Ar 24 Hydref 2022, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Reoliadau Digartrefedd (Angen Blaenoriaethol a Bwriadoldeb) (Cymru) 2022. Mae Llywodraeth Cymru wedi drafftio canllawiau statudol ychwanegol i helpu awdurdodau lleol i roi'r newid deddfwriaethol hwn ar waith.

Un o egwyddorion allweddol Tai yn Gyntaf yw canolbwyntio ar allgymorth pendant a chyfathrebu cadarnhaol, rhagweithiol gyda'r rhai mewn angen. Mae'r lefelau uchel o ran cynnal tenantiaeth ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â chynlluniau o'r fath yn dangos llwyddiant gweithgareddau o'r fath (cyfradd cynnal tenantiaeth o 90%). Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i rannu'r llwyddiannau hyn ag awdurdodau lleol ac yn chwilio am gyfleoedd i wreiddio gweithgareddau sy'n ymwneud â Thai yn Gyntaf ymhellach mewn gwaith Ailgartrefu Cyflym.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 7 | **Atgyfnerthu Gwasanaethau Cymorth Tai**<br><br>Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i sicrhau bod fframweithiau ariannu a chomisiynu yn sicrhau bod gwasanaethau cynnal tenantiaeth cynhwysfawr ar waith, wedi'u cynllunio i ymateb yn rhagweithiol i faterion, wrth iddynt godi, a allai arwain at bobl yn mynd yn ddigartref.<br><br>Ni ddylai gwasanaethau gael eu cyfyngu i dai yn unig a chânt eu hehangu'n fwy cyffredinol, gan gydnabod natur integredig y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddigartrefedd. Er mwyn ymateb yn effeithiol, bydd angen dull sy'n canolbwyntio ar y person sy'n cwmpasu amrywiaeth o sectorau. | awdurdodau lleol<br><br>Bydd awdurdodau lleol yn arwain y gwaith hwn gan gydweithio â phartneriaid sy'n darparu tai a'r rheini sy'n cefnogi gwasanaethau tai yn fwy cyffredinol. | Tymor byr – cyllid i'r Grant Cymorth Tai – cynnydd o £40m i £166.7m yn 2021/22. Adolygu canllawiau'r Grant Cymorth Tai.<br><br>Tymor canolig – Canllawiau diwygiedig fel sydd angen i atgyfnerthu gwasanaethau cymorth. | £166.7m o Grant Cymorth Tai wedi'i ddarparu yn 2021/22 i awdurdodau lleol gynllunio a chomisiynu gwasanaethau cymorth yn ymwneud â thai, gan gynnwys gwasanaethau sy'n cefnogi cynnal tenantiaeth.<br><br><u>Diweddariad 2023:</u><br>Mae'r Grant Cymorth Tai wedi parhau i gael ei ddarparu at y diben hwn, gan ddarparu £166.7m ar gyfer 2023/24. |

**DIWEDDARIAD AR GYNNYDD:**

Mae’r Grant Cymorth Tai yn cael ei ddarparu i awdurdodau lleol i gynllunio a chomisiynu gwasanaethau cymorth sy’n ymwneud â thai, gan gynnwys gwasanaethau sy’n cefnogi cynnal tenantiaeth, a gwasanaethau i unigolion ag anghenion mwy cymhleth.

Er gwaethaf y pwysau cyllidebol, rydym wedi cynnal y cynnydd o £40m yng nghyllideb y Grant Cymorth Tai a ddyfarnwyd yn 2021-22, felly mae’n dal yn £166.763m yn 2023-24. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yr heriau a’r galw cynyddol sy’n wynebu gwasanaethau digartrefedd a chymorth tai ledled Cymru, a’r pwysau ar y gyllideb hon, gan gynnwys costau cynyddol rhedeg gwasanaethau o ganlyniad i bwysau chwyddiant.

Mae Canllawiau Ymarfer y Grant Cymorth Tai yn hyrwyddo gweithio ar y cyd â sectorau perthnasol, a dylid mabwysiadu dull amlasiantaeth sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn i sicrhau bod modd darparu gwasanaeth cyfannol. Cafodd meini prawf y Canllawiau eu diweddaru ym mis Ionawr 2023 er mwyn gallu defnyddio’r Grant i wneud y canlynol:
a) ariannu gwasanaethau cyfryngu i deuluoedd ar gyfer unigolion dan 16 oed. Pwrpas hyn yw caniatáu i’r unigolyn dan 16 oed aros yng nghartref y teulu
b) lle bo’n briodol, gellir ystyried ‘costau lesio’ adeilad fel rhan o “gostau rheoli” 10% prosiect cymorth.

Mae’n rhaid i awdurdodau lleol gael Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai 4 blynedd ar waith a ddylai ddarparu un darlun strategol o ddull gweithredu’r awdurdod o ran atal digartrefedd a gwasanaethau cymorth tai. Felly, byddai’n cynnwys swyddogaethau digartrefedd statudol a ariennir drwy’r setliad refeniw a gwasanaethau ataliol anstatudol a ariennir drwy’r Grant Cymorth Tai. Dylai’r Strategaeth hon hefyd gynnwys eu Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym, a ddylai nodi cynllun yr awdurdod lleol i symud tuag at ddull Ailgartrefu Cyflym. Y Grant Cymorth Tai yw’r prif gyllid refeniw sydd ar gael i gefnogi’r gwaith o gyflawni hyn.

| Rhif | Cam Gweithredu | Partneriaid cyflawni (cenedlaethol, rhanbarthol neu leol) | Amserlen (byr (<1 mlynedd), canolig (1-2 flynedd) neu hirdymor (>3 blynedd) | Adnodd sydd ei angen / a ddarperir |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| Atal | | | | |
| 8 | **Sicrhau cysondeb â’r Cynllun Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, y Fframwaith Cymru sy’n Ystyriol o Drawma, a pholisïau trechu tlodi**<br><br>Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y broses o ddatblygu gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wedi'i chynllunio i leihau tlodi, yn cynnwys tlodi plant, ac i hyrwyddo diogelwch ariannol ac annibyniaeth a'i bod yn cyd-fynd â pholisïau ac arferion atal digartrefedd<br><br>**Diweddariad 2023:**<br>Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn sicrhau cysondeb â’r Fframwaith Cymru sy’n Ystyriol o Drawma a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022. | Llywodraeth Cymru (Polisi Tai, Trechu tlodi, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Camddefnyddio Sylweddau/Iechyd Meddwl)<br><br>Llywodraeth Cymru fydd y prif arweinydd, gan annog partneriaid eraill i ymgysylltu yn y gwaith hwn | Tymor Byr – adolygu adnoddau a'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn y maes hwn<br><br>Diweddariad 2023:<br>Tymor Canolig – Gweithredu Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd i fonitro a yw gwasanaethau’n sicrhau bod timau cymorth a chyngor yn gallu cefnogi pobl y mae trallod a thrawma yn effeithio arnynt. | Adolygu i asesu’r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd a nodi’r bylchau y mae angen buddsoddiad pellach ar eu cyfer |

**DIWEDDARIAD AR GYNNYDD:**

Mae canllawiau'r Grant Cymorth Tai yn nodi bod yn rhaid i wasanaethau a gomisiynir gael effaith gynaliadwy ar achosion sylfaenol digartrefedd, fel effeithiau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod neu fathau eraill o drallod a thrawma. Dylid comisiynu a darparu gwasanaethau gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar seicoleg sy'n cydnabod ac yn ymateb yn briodol i effaith trawma.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd. Mae'r fframwaith yn cynnwys canlyniadau i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio'n effeithiol mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma i roi diwedd ar ddigartrefedd, ac i sicrhau bod staff digartrefedd a chymorth tai yn cael y cymorth, yr amser, y sgiliau a'r hyder i ddarparu cymorth sy'n ystyriol o drawma ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Rydym yn cydnabod y gall trallod yn ystod plentyndod arwain at drawma, a dyna pam y bydd cyflwyno'r Cynllun Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ym mis Medi 2023 yn cyd-fynd â'r Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma, a gafodd ei gyd-gynhyrchu gan Hyb ACE Cymru a Straen Trawmatig Cymru, a'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2022. Bydd y fframwaith a hyrwyddo dulliau gweithredu sy'n ystyriol o drawma yn un o gonglfeini polisïau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ar draws amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys rhoi diwedd ar ddigartrefedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflenwi dros **£2.3m** o gyllid ychwanegol dros y cyfnod 2022 i 2026 i gefnogi'r gwaith o weithredu'r fframwaith.

Yn dilyn adroddiad cynnydd 2022 ar y strategaeth bresennol, mae Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig i Gymru. Mae'r strategaeth ddrafft yn cynnwys nifer o ymrwymiadau trawslywodraethol ar drechu tlodi plant. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 11 Medi 2023, ar ôl cyhoeddi fersiwn derfynol, a byddwn yn gweithio i sicrhau cysondeb rhwng cyflawni'r Cynllun hwn a chyflawni'r Strategaeth Tlodi Plant. Mae hyn yn debygol o gynnwys sicrhau bod timau cymorth a chyngor yn gallu helpu teuluoedd i gael cyngor ar leihau costau, deall eu hawliau, a chynyddu eu hincwm.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 9 | **Gwella mesurau ymyrraeth gynnar a mesurau atal wedi'u targedu**<br><br>Awdurdodau lleol i atgyfnerthu systemau ar gyfer nodi pobl ifanc sy'n wynebu risg o ddigartrefedd yn llawer cynharach. Sicrhau bod cymorth addas ar waith ar gyfer y rheini a nodir.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio i ddatblygu, diwygio neu wella'r broses o roi llwybrau ar waith â chymorth wedi'i deilwra, ymyriadau priodol a datrysiadau tai ar gyfer grwpiau sy'n wynebu risg o niwed (plant sy'n wynebu risg o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, pobl sy'n gadael y carchar, y rhai sy'n ffoi rhag trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, pobl ethnig leiafrifol, pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, pobl anabl, yn cynnwys y rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl a'r rhai sydd ag anableddau dysgu, cyn-aelodau o staff y Lluoedd Arfog, ffoaduriaid, ac ati.) Yn sgil hyn, bydd gwasanaethau cyhoeddus yn mabwysiadu polisi dim rhyddhau i | Llywodraeth Cymru (Polisi Tai, Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol, Camddefnyddio Sylweddau/Iechyd Meddwl), Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi/Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, awdurdodau lleol.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn arwain ar hyn a bydd yn dibynnu ar sefydliadau partner sydd â chyfrifoldeb gweithredol i gyflawni mewn perthynas â'r cam gweithredu hwn. | Tymor byr i ganolig –<br>Pobl ifanc:<br>Dull integredig yng Nghynllun Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cymru<br>Mireinio'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid er mwyn gwella'r gwaith o nodi pobl ifanc sydd mewn perygl ar gam cynnar<br>Parhau i fuddsoddi mewn Cydgysylltwyr Pobl Ifanc Ddigartref<br><br>Pobl sy'n gadael y carchar:<br>Datblygu a gweithredu strategaeth ar y cyd â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, CLlLC a Llywodraeth Cymru<br><br>Gwaith ataliol wedi'i dargedu ar gyfer grwpiau eraill:<br>Datblygu, diwygio neu wella'r gwaith o gyflwyno llwybrau â chymorth wedi'i deilwra, ymyriadau priodol a datrysiadau tai. | Dyrannu £3.7m o'r Grant Atal Digartrefedd i'r Grant Cymorth Ieuenctid i gefnogi gweithgarwch canfod yn gynnar.<br><br>Dyrannu £3.1m o'r Grant Atal Digartrefedd i'r Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc Ddigartref<br><br>Dyrannu £762,977 o'r Grant Atal Digartrefedd i'r rhaglen Rhoi llety i'r rhai sy'n gadael carchar |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ddigartrefedd. Dylai mesurau gydnabod pa mor ddybryd yw'r angen a rhoi cymorth ar fyrder pan fydd hynny'n ofynnol. | | **Diweddariad 2023:** Edrych ar le mae gofynion neu dystiolaeth ar gyfer datblygu llwybrau cymorth penodol. | |

**DIWEDDARIAD AR GYNNYDD:**

Mae ein gwaith diwygio deddfwriaethol wedi cynnwys ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid er mwyn sicrhau ein bod yn cofnodi profiadau ac anghenion grwpiau amrywiol.  Mae hyn yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu diwygiadau deddfwriaethol sy'n cynnwys mesurau atal wedi'u targedu ar gyfer grwpiau penodol a sut gall digartrefedd a phrofiadau pobl â nodweddion gwarchodedig groestorri. Byddwn yn parhau â'r ymgysylltu hwn drwy gydol y cyfnod ymgynghori.
Mae'r Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac sy'n destun ymgynghoriad cyhoeddus yn cwmpasu canlyniadau sy'n pennu'r cyfeiriad strategol, ac yn ei gwneud yn bosibl mesur canlyniadau gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n ystyriol o drawma. Mae hyn yn cynnwys casglu data i fesur cynnydd effaith gwasanaethau ar grwpiau penodol a gwarchodedig.

Mae gwaith atal penodol wedi'i dargedu wedi canolbwyntio ar ddigartrefedd ymysg pobl ifanc, gan gynnwys pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, ac mae hefyd wedi canolbwyntio ar y rheini sy'n gadael sefydliadau diogel a'r rheini ag anghenion cymhleth.

Digartrefedd ymysg pobl ifanc
Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid wedi cael ei ddiweddaru ac mae bellach yn cynnwys atal digartrefedd ymysg pobl ifanc.  Cafodd hwn ei gyhoeddi ym mis Medi 2022.  Mae canllawiau ar adnabod y rheini sydd mewn perygl o fod yn ddigartref cyn 16 yn gynnar yn cael eu datblygu a byddant yn cael eu cyhoeddi yn ystod hydref 2023.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £3.7m arall o gyllid i Wasanaethau Ieuenctid yn 2023-24 i gefnogi'r gwaith o ymyrryd yn gynnar ac atal digartrefedd ymysg pobl ifanc, a hefyd i barhau â rôl y Cydlynydd Digartrefedd ymysg Pobl Ifanc ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.

Cafodd diweddariad o'r Fframwaith Llety a Chymorth i Ymadawyr Gofal yng Nghymru, oedd â'r bwriad o wella'r trefniadau pontio o ofal i fyw'n annibynnol, ei gyhoeddi ym mis Mai 2023.

Mae dros 20 o brosiectau sy'n darparu dulliau cymorth tai newydd ac arloesol i bobl ifanc ar waith ar hyd a lled Cymru o ganlyniad i'n buddsoddiad o dros £3.1m yn y Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc Ddigartref. Mae prosiectau'r gronfa arloesi ar gyfer pobl ifanc ddigartref yn benodol ar gyfer pobl ifanc agored i niwed rhwng 16 a 25 oed sydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu'n ddigartref ar hyn o bryd gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, bobl ifanc sy'n gadael gofal, pobl ifanc anabl a'r rheini sydd wedi bod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid yn y gorffennol.
Mae enghreifftiau o'r prosiectau hyn yn cynnwys llety â chymorth, fflatiau hyfforddi, cymorth gyda thenantiaeth, cynllun llety a rennir, cynllun cymorth pontio, a chynllun tai â chymorth i bobl LHDTC+. Hefyd mae pedwar prosiect Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc yn rhedeg ar draws pum awdurdod lleol fel rhan o'r gronfa.

Pobl sy'n gadael y carchar

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS) a Prison Link Cymru (PLC) i adolygu ac adnewyddu'r llwybr carcharorion, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu dwyn at ei gilydd i weithio gydag unigolion cyn gynted â phosibl er mwyn atal pobl rhag gadael sefydliadau diogel rhag dod yn ddigartref. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i adolygu lle gellir cynnwys hyblygrwydd ychwanegol ym modelau cyllido Gwasanaeth Llety yn y Gymuned Haen 3 y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ CAS3), fel bod y broses yn cyd-fynd yn agosach ag uchelgais Llywodraeth Cymru o Ailgartrefu Cyflym ac oddi wrth aros mewn llety tymor byr dros dro.

Anghenion Cymhleth

Ar ôl gweithredu Cyllid Anghenion Cymhleth yn llwyddiannus mewn pedair ardal Bwrdd Cynllunio Ardal yn 2020-23, dyblodd Llywodraeth Cymru y cyllid i £2m a'i ddarparu i bob un o'r saith Bwrdd Cynllunio Ardal. Mae hyn wedi cael ei gynyddu ymhellach yn 2023-24 i £3.5m a bydd yn cynyddu £1m arall flwyddyn nesaf.

Darperir Cyllid Anghenion Cymhleth i Fyrddau Cynllunio Ardal i wella gwasanaethau i bobl sy'n ddigartref neu sy'n wynebu problemau tai, ac mae angen datblygu'r cynigion mewn partneriaeth agos â thimau tai awdurdodau lleol a thimau iechyd meddwl y Bwrdd Iechyd perthnasol.

Mae'r cyllid yn cefnogi amrywiaeth o wasanaethau perthnasol gan gynnwys staff allgymorth ychwanegol. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i adolygu a monitro effaith y cyllid hwn i hybu'r arferion gorau.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 10 | **Adolygu a diwygio darpariaeth cyfryngu teuluol i sicrhau darpariaeth effeithiol a chyson ledled Cymru**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o wasanaethau cyfryngu teuluol gyda'r nod o ddatblygu dull i sicrhau darpariaeth effeithiol a chyson ledled Cymru i helpu teuluoedd ar gam cynharach. | Llywodraeth Cymru<br><br>Llywodraeth Cymru fydd y prif arweinydd, gan annog partneriaid eraill i ymgysylltu yn y gwaith hwn fel rhan o'r broses adolygu. | Tymor byr – Trosglwyddo cyllid ar gyfer gwasanaethau cyfryngu teuluol i'r Grant Cymorth Tai a datblygu canllawiau atodol<br><br>Tymor canolig – Adolygu'r ddarpariaeth ledled Cymru | £373,000 o gyllid ar gyfer cyfryngu teuluol sydd o fewn y Grant Atal Digartrefedd ar hyn o bryd |

**DIWEDDARIAD AR GYNNYDD:**

O 2022-23 ymlaen, bydd cyllid ar gyfer 30 o brosiectau sy’n cael eu hariannu gan y Grant Atal Digartrefedd yn cael eu trosglwyddo i’r Grant Cymorth Tai am gyfnod pontio o ddwy flynedd (erbyn diwedd 2023-24). O’r rhain, mae ychydig o dan hanner yn canolbwyntio ar gyfryngu teuluol a datrys gwrthdaro – cyfanswm o £586k.

Yn ystod y cyfnod pontio, mae awdurdodau lleol yn ymgysylltu’n agos â darparwyr prosiectau i ddeall darpariaeth gwasanaethau yn well a sut mae’n cyd-fynd â blaenoriaethau’r awdurdod lleol, fel y mae wedi’i lywio gan asesiadau o anghenion a’i amlinellu yn ei Strategaethau ar gyfer rhaglenni Cymorth Tai, ac â gwasanaethau eraill y mae’r awdurdod lleol yn eu comisiynu gan ddefnyddio’r Grant Cymorth Tai. Bydd y gwaith ymgysylltu hwn yn sail i benderfyniadau awdurdodau lleol ynghylch a fyddant yn parhau i ariannu’r prosiectau hyn o 2024-25 ac os felly, sut byddant yn gwneud hynny. Mae Llywodraeth Cymru’n parhau i ymgysylltu ag awdurdodau lleol a darparwyr yn ystod hanner cyntaf 2023-24 i ddeall y safbwyntiau sy’n dod i’r amlwg a’r goblygiadau i wasanaethau.

Bydd hyn hefyd yn sail i gynlluniau i ddatblygu canllawiau atodol y Grant Cymorth Tai ar wasanaethau cyfryngu ac arferion da.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 11 | **Gwella arferion a'r gwasanaethau a ddarperir i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a/neu niwroddatblygiadol**<br><br>Byddwn yn parhau i gefnogi ein camau gweithredu allweddol yn y cynllun cyflawni iechyd meddwl i sicrhau bod cymorth iechyd meddwl wedi'i deilwra'n benodol ar gael i unigolion reoli tenantiaethau yn annibynnol, ac i gefnogi'r broses o dreialu dulliau newydd o weithio mewn partneriaeth er mwyn cefnogi pobl sy'n cysgu allan a phobl sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd.<br><br>Drwy raglen ymchwil, byddwn yn nodi ac yn mapio'r sbectrwm o unigolion ac anghenion gwahanol pobl sy'n profi digartrefedd. Bydd hyn yn cynnwys meithrin dealltwriaeth well o'r grwpiau gwahanol o bobl (er enghraifft y rheini sy'n defnyddio ysgogyddion, tawelyddion neu opioidau) a'u hanghenion o ran iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, yn ogystal â'r rhai â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf | Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd, Awdurdodau lleol a'r Trydydd sector | Tymor Byr – Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iechyd a Thai yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol o dan Fwrdd Cynghori Cenedlaethol i arwain y gwaith datblygu a gweithredu | Grŵp Gorchwyl a Gorffen i helpu i sefydlu unrhyw oblygiadau o ran adnoddau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cydraddoldeb 2010. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i atgyfnerthu llwybrau at wasanaethau a fydd yn helpu i atal digartrefedd neu fynd i'r afael ag ef. | | | |

**DIWEDDARIAD AR GYNNYDD:**

Sefydlwyd Grŵp Strategol Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant Iechyd yn gynnar yn 2023 i ddatblygu a chyflawni rhaglen waith flynyddol i gefnogi'r gwaith o gydlynu gwasanaethau iechyd y cyhoedd a gofal iechyd yn strategol, gan gynnwys gofal sylfaenol. Mae 'iechyd cynhwysiant' yn derm a ddatblygwyd i fynd i'r afael ag anghenion iechyd a gofal pobl sy'n cael eu heithrio'n draddodiadol, gan gynnwys pobl ddigartref. Gwaith y grŵp, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Fyrddau Iechyd yng Nghymru, o'r maes Gofal Sylfaenol ac uwch Swyddogion Iechyd a Thai Llywodraeth Cymru, fydd gwella ymarfer a darpariaeth i leihau anghydraddoldebau a gwella canlyniadau iechyd ar gyfer poblogaethau iechyd cynhwysiant yng Nghymru gan gynnwys pobl ddigartref, ac mae'n bwydo'n uniongyrchol i'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd. Bydd y gwaith hwn yn cyd-fynd â datblygu Strategaeth Iechyd Meddwl newydd Cymru a fydd yn cynnwys ffocws ar gydraddoldeb a mynediad teg at wasanaethau.

Mae End Youth Homelessness Cymru (EYHC), gyda chymorth cyllid cydlynu gan Lywodraeth Cymru, yn bwriadu cyhoeddi adroddiad ar y cysylltiad rhwng niwroamrywiaeth a digartrefedd ymysg pobl ifanc fis Medi 2023. Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu gyda Chydlynwyr Digartrefedd ymysg Pobl Ifanc mewn awdurdodau lleol, gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth a chefnogi datblygiad gwasanaethau cynhwysol.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 12 | **Gwella arferion a'r gwasanaethau a ddarperir i bobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau yn cynnwys y rheini sydd â phroblemau iechyd meddwl ar yr un pryd**<br><br>Er na fydd gan lawer o bobl sy'n profi digartrefedd neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd broblemau camddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl, gall digartrefedd arwain at bwysau sy'n ei gwneud hi'n anodd cynnal tenantiaeth.<br><br>Byddwn yn parhau i gefnogi ein camau gweithredu allweddol yn y cynlluniau cyflawni camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl i gefnogi pobl ddigartref. Bydd hyn yn cynnwys dysgu o'r £1m mewn Anghenion Cymhleth rydym wedi'i ddarparu i bedwar cynllun peilot yng Nghymru sy'n cefnogi'r gwaith hwn yn benodol. Caiff gwaith datblygu pellach ei arwain drwy ein grŵp At Wraidd y Mater sy'n cefnogi gwelliannau yn y ddarpariaeth i'r rheini sy'n wynebu problemau camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl ar yr un pryd. | Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal, Byrddau Iechyd, Awdurdodau lleol a'r Trydydd sector | Tymor Byr – Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iechyd a Thai yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol o dan Fwrdd Cynghori Cenedlaethol i arwain y gwaith datblygu a gweithredu | £166.7m o Grant Cymorth Tai wedi'i ddarparu yn 2021/22, a all gael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol i sicrhau bod lefel ddigonol o gymorth cofleidiol ar gael i gefnogi'r rhai ag anghenion cymhleth i gynnal tenantiaethau.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi dros £67m bob blwyddyn mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Mae darparu cymorth a thriniaeth ar gyfer pobl sy'n profi digartrefedd yn flaenoriaeth yn y cynllun cyflawni.<br><br>**Diweddariad 2023:**<br>Mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu ei chyllid Anghenion Cymhleth i £3.5m yn 2023-24 a bwriedir ei gynyddu ymhellach o £1m yn 2024-25. Mae'r cyllid hwn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gwasanaethau ac ymyriadau ar gyfer camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl yn benodol, gan weithio mewn partneriaeth â thimau digartrefedd awdurdodau lleol. |

**DIWEDDARIAD AR GYNNYDD:**

Ar ôl gweithredu Cyllid Anghenion Cymhleth yn llwyddiannus mewn pedair ardal Bwrdd Cynllunio Ardal yn 2020-23, dyblodd Llywodraeth Cymru y cyllid i £2m a'i ddarparu i bob un o'r saith Bwrdd Cynllunio Ardal. Mae hyn wedi cael ei gynyddu ymhellach yn 2023-24 i £3.5m a bydd yn cynyddu £1m arall flwyddyn nesaf.

Darperir Cyllid Anghenion Cymhleth i Fyrddau Cynllunio Ardal i wella gwasanaethau i bobl sy'n ddigartref neu sy'n wynebu problemau tai, ac mae angen datblygu'r cynigion mewn partneriaeth agos â thimau tai awdurdodau lleol a thimau iechyd meddwl y Bwrdd Iechyd perthnasol.

Mae'r cyllid yn cefnogi amrywiaeth o wasanaethau perthnasol, gan gynnwys staff allgymorth ychwanegol.  Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i adolygu a monitro effaith y cyllid hwn i hybu'r arferion gorau.

| Rhif | Cam Gweithredu | Partneriaid cyflawni (cenedlaethol, rhanbarthol neu leol) | Amserlen (byr (<1 mlynedd), canolig (1-2 flynedd) neu hirdymor (>3 blynedd) | Adnodd sydd ei angen / a ddarperir |
|---|---|---|---|---|
| Camau cefnogol cyffredinol | | | | |
| 13 | **Datblygu Fframwaith Canlyniadau Digartrefedd newydd**<br><br>Caiff y canlyniadau digartrefedd yn y fframwaith eu cynllunio fel bod fframweithiau polisi eraill yn cael eu hintegreiddio a'u bod yn cyfrannu'n weithredol at y broses o'u cyflawni. | Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, partneriaid tai yn y Trydydd Sector<br><br>Llywodraeth Cymru fydd y prif arweinydd, gan annog partneriaid eraill i ymgysylltu yn y gwaith hwn | Tymor byr i ganolig<br><br>Datblygu polisi – rhwng nawr a mis Mai 2022<br>Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn Anffurfiol - rhwng nawr a mis Mai 2022<br>Ymgynghori ffurfiol – mis Mehefin 2022<br>Lansio – Diwedd 2022<br>Gwerthuso – Chwe mis ar ôl lansio<br><br>**Diweddariad 2023:**<br>Oherwydd yr ymgysylltu a'r cydweithio helaeth gyda rhanddeiliaid allweddol, mae'r gwaith terfynol o ddatblygu ac ymgynghori ar y Fframwaith Canlyniadau wedi cael ei wneud dros gyfnod hirach. Cafodd yr ymgynghoriad ei lansio ar 12 Mehefin 2023. | Bydd y gwaith yn cael ei gyflawni drwy Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Gymorth Tai, swyddogion polisi a swyddogion mewn sefydliadau perthnasol.<br><br>Bydd y goblygiadau o ran adnoddau i sefydliadau cyfrannol yn cael eu hystyried yn ystod y cam datblygu.<br><br>Bydd angen adnoddau ymgysylltu a chyfathrebu ar ôl datblygu'r Fframwaith.<br><br>Bydd angen adnoddau gwerthuso pan fydd y Fframwaith yn weithredol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Tymor byr – Cyhoeddi'r Fframwaith Canlyniadau terfynol ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn ystod gaeaf 2023.<br><br>Tymor canolig/hir – ar ôl gweithredu yn gynnar yn 2024 drwy gyhoeddi adroddiad 'llinell sylfaen', adroddir ar ddiweddariadau blynyddol. | |

**DIWEDDARIAD AR GYNNYDD:**

Gweithiodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Strategol y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd ar y cyd i gyd-gynhyrchu'r Fframwaith yn ystod 2022.

Cafodd yr ymgynghoriad ffurfiol ei lansio ar 12 Mehefin 2023 a bydd yn para tan 18 Medi 2023. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal digwyddiadau ymgysylltu ar-lein yn ystod y cyfnod ymgynghori i arwain a chefnogi ymatebwyr drwy fanylion mwy cymhleth a thechnegol y fframwaith.

Yn amodol ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a fydd yn cael eu hystyried yn fanwl i siapio'r Fframwaith, rydym yn bwriadu cyhoeddi'r Fframwaith Canlyniadau terfynol ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn ystod gaeaf 2023.

Rydym yn cynnig gweithredu'r Fframwaith yn gynnar yn 2024 drwy gyhoeddi adroddiad 'llinell sylfaen'.

Wedi hynny, rydym yn bwriadu cyhoeddi diweddariad yn erbyn yr adroddiad 'llinell sylfaen' bob blwyddyn i fesur cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniadau manwl.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 14 | **Adolygu a diwygio'r broses o gasglu data i gefnogi'r fframwaith canlyniadau newydd**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn gwerthuso'r trefniadau a'r gofynion presennol ar gyfer casglu data, boed yn statudol neu'n anstatudol ar draws digartrefedd a chymorth tai er mwyn sicrhau eu bod yn dangos cynnydd yn glir ac yn gywir tuag at roi diwedd ar ddigartrefedd a chefnogi'r fframwaith canlyniadau newydd | Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a phartneriaid cyflenwi tai<br><br>Llywodraeth Cymru fydd y prif arweinydd, gan annog partneriaid eraill i ymgysylltu yn y gwaith hwn. | Tymor byr – gwaith i ddechrau.<br><br>Tymor canolig – unrhyw drefniadau casglu data statudol newydd i gyd-fynd â diwygiadau deddfwriaethol. | Ystyrir y goblygiadau o ran adnoddau a chynhelir asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb fel rhan o'r gwaith o ddatblygu unrhyw ofyniad newydd neu ofyniad wedi'i newid o ran data statudol. |

**DIWEDDARIAD AR GYNNYDD:**

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Fframwaith Canlyniadau newydd ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn ystod 2022, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Strategol i nodi amrywiaeth o 'ddangosyddion data' arfaethedig i fesur cynnydd yn erbyn y canlyniadau a nodir yn y Fframwaith. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n ailadroddus i fireinio'r dangosyddion data hyn – sy'n cynnwys data sy'n cael ei gasglu ar hyn o bryd, yn ogystal â dangosyddion data newydd i'w casglu yn y dyfodol agos, neu eraill sydd angen rhagor o waith i'w ddatblygu.

O ganlyniad, bydd tablau data statudol a gafodd eu rhewi oherwydd y pandemig yn cael eu hadfer yn ystod 2023-24, i'w cyhoeddi yn ystod haf 2024. Ar ben hynny, bydd cyhoeddi dau dabl statudol bob chwe mis yn helpu i gael data mwy amserol ar feysydd allweddol. Bydd y cyntaf o'r chwe chyhoeddiad misol yn cael ei ryddhau tua hydref/gaeaf 2023.

Bydd y data rheoli misol ar *ddarpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan* yn cael ei gyhoeddi ar lefel fanylach yn ystod y misoedd nesaf, gyda dadansoddiadau data pellach yn cael eu hystyried ar gyfer y dyfodol agos. Mae gwaith hefyd wedi dechrau ar gael dealltwriaeth uwch o elfen cysgu allan y broses casglu data, gyda'r bwriad o gynnwys diffiniadau newydd sy'n cyd-fynd â dangosyddion data'r Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Terfyn ar Ddigartrefedd a'u cyhoeddi ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 15 | **Sefydlu rhaglen gyfathrebu i leihau stigma a gwella dealltwriaeth o achosion digartrefedd a ffyrdd o'i ddatrys**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu rhaglen gyfathrebu barhaus sy'n cyd-fynd â'r Fframwaith Canlyniadau gyda'r nod o ail-fframio canfyddiadau cyffredinol ynghylch digartrefedd a chefnogi'r gwaith o gyflwyno'r dull polisi. Dylai'r rhaglen gynnig ffocws cenedlaethol, ond dylai fod yn addas i'w haddasu ar gyfer materion / cynulleidfaoedd rhanbarthol penodol, gan gynnwys pobl ifanc, lle y bo'n bosibl, fel rhan o elfennau o ddysgu ac addysg, yn ogystal â dulliau cyfathrebu ehangach ar gyfer oedolion. Byddwn yn sicrhau bod y rhaglen gyfathrebu yn hygyrch i'r rhai â gofynion mynediad. | Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a phartneriaid cyflenwi tai<br><br>Llywodraeth Cymru fydd y prif arweinydd, gan annog partneriaid eraill i ymgysylltu yn y gwaith hw | Tymor byr – ymgyrch gyfathrebu newydd Llywodraeth Cymru i gael ei chomisiynu yn ystod hydref 2021.<br><br>Tymor canolig – sefydlu rhaglen gyfathrebu<br><br>Diweddariad 2023:<br>Bydd y rhaglen Gyfathrebu yn cael ei hymestyn i hyrwyddo a gwreiddio dull Ailgartrefu Cyflym o ymdrin â digartrefedd. | Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £250,000 o'r Gyllideb Atal Digartrefedd yn 2020/21 i gefnogi'r gwaith hwn.<br><br>Bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni i ddechrau gan swyddogion polisi a swyddogion mewn sefydliadau perthnasol, ond bydd hefyd yn cynnwys arbenigwyr cyfathrebu. Bydd elfen hanfodol o'r gwaith yn gofyn am fewnbwn gan bobl sydd wedi cael profiad o ddigartrefedd. |

**DIWEDDARIAD AR GYNNYDD:**

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgyrch rhwng mis Mawrth a mis Mai 2022 yn tynnu sylw at y ffaith bod llawer o lwybrau tuag at ddigartrefedd ac yn annog pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref i gael cymorth yn gynnar. Roedd yr ymgyrch yn cyfeirio pobl at wasanaeth cynghori annibynnol Shelter Cymru i gael cymorth.

Cynhaliwyd dau gam ymgyrch recriwtio cymorth digartrefedd a thai ym mis Gorffennaf 2022 a rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2023. Roedd yr ymgyrch yn annog rhagor o bobl i wneud cais am swyddi yn y sector, gan ei hyrwyddo fel sector sy'n cynnig boddhad yn y gwaith.

Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ailgartrefu Cyflym yn parhau i ddatblygu a darparu ymgyrch gyfathrebu sy'n cyd-fynd â lleihau stigma a newid canfyddiadau ynghylch 'pwy' a 'sut' y gall pobl fod yn ddigartrefedd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 16 | **Grymuso pobl sydd â phrofiad bywyd i ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer**<br><br>Llywodraeth Cymru i roi cyfleoedd i bobl sydd â phrofiad bywyd i ddylanwadu ar bolisi yn y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol a thrwy bartneriaid<br><br>Awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a'r trydydd sector i ddatblygu dulliau o gynnwys pobl sydd â phrofiad bywyd yn y gwaith o ddylunio, recriwtio, cyflenwi a gwerthuso gwasanaethau. | Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, y Trydydd Sector | Tymor byr i ganolig<br><br>**Diweddariad 2023:**<br>Mae pobl sydd â phrofiad bywyd o ddigartrefedd yn rhan hanfodol o'n gwaith i ddatblygu'r cynigion ar gyfer diwygio deddfwriaethol. | Bydd adnoddau'n cael eu darparu drwy gyllidebau gweinyddol y partneriaid perthnasol. |

**DIWEDDARIAD AR GYNNYDD:**

Mae’r rheini sydd â phrofiad bywyd o ddigartrefedd yn hanfodol i ddatblygu deddfwriaeth. Fel rhan o waith Arbenigwyr drwy Brofiad Cymorth Cymru a drwy weithio gyda Tai Pawb, rydym wedi ymgysylltu â dros 350 o bobl sydd â phrofiad bywyd o ddigartrefedd wrth ddylunio’r diwygiadau hyd yma.

Yn 2023/24, mae Llywodraeth Cymru yn darparu £237,000 i gefnogi Tai Pawb i gasglu safbwyntiau pobl sydd â phrofiad bywyd i lywio a dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu polisïau. Adroddiad ar Ymchwil gydag arbenigwyr amrywiol drwy brofiad ar gyfer y Panel Arbenigol ar Ddigartrefedd, a gafodd ei gwblhau a’i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2023. Cafodd cyfarfod cyntaf yr is-grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ei gynnull a’i gadeirio gan Tai Pawb ym mis Mai.

Mae prosiectau Tai yn Gyntaf sydd ar waith ar hyd a lled Cymru yn dibynnu ar fodlonrwydd cwsmeriaid a chleientiaid i fesur eu llwyddiannau, a dylanwadu ar ddatblygiadau polisi yn y dyfodol. Maent yn parhau i ddefnyddio astudiaethau achos o’r rheini sydd â phrofiad bywyd i ddangos llwyddiant y cynllun a chodi ymwybyddiaeth o Tai yn Gyntaf fel ateb i’r rheini sydd ag anghenion lluosog neu gymhleth. Mae unigolion sydd wedi dod drwy’r cynllun yn eistedd ar baneli recriwtio ac yn gweithio gyda gweithwyr achos i lywio’r gwaith o gyflawni a blaenoriaethu gweithgareddau’r prosiectau yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod llais y defnyddiwr gwasanaeth nid yn unig yn cyfrannu at ddatblygu gwasanaethau, polisi a datblygu deddfwriaeth.